Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Canllaw i'r broses ar gyfer Biliau Aelod

Mai 2026

Find out more:
**senedd.wales**

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd: **www.senedd.cymru**

Gellir cael copïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopi caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **cysylltu@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys

**Crynodeb o'r broses ar gyfer Biliau Aelod .................................................. 5**

**Cyflwyniad .................................................................................................. 7**

**Y balot ........................................................................................................ 8**

Dadl i geisio caniatâd y Senedd i gyflwyno Bil ................................................ 8

**Llunio Bil.....................................................................................................10**

Trosolwg ...................................................................................................... 10

Ymgynghori.................................................................................................. 10

Biliau drafft................................................................................................... 10

Ymgyngoreion ...............................................................................................11

Drafftio’r Bil a’r Memorandwm Esboniadol ......................................................11

Gofynion ychwanegol y Rheolau Sefydlog.........................................................12

Cyflwyno'r Bil yn ffurfiol a'r datganiad deddfwriaethol ......................................13

**Proses ddeddfu’r Senedd ..............................................................................14**

Cyfnod 1....................................................................................................... 14

Penderfyniad Ariannol.....................................................................................17

Cyfnod 2....................................................................................................... 18

Cyfnod 3....................................................................................................... 20

Cyfnod 4 .......................................................................................................21

**Atodiad 1: Canllawiau fesul cam i’r broses ar gyfer Bil Aelod ................ 23**

Amserlen ar gyfer y balot(au)...........................................................................23

Cyflwyno enwau ar gyfer y balot ......................................................................23

Y balot ..........................................................................................................23

Dadl i geisio caniatâd y Senedd i gyflwyno Bil ..................................................23

Drafftio’r Bil a’r Memorandwm Esboniadol ........................................................23

Cyflwyno’r Bil yn ffurfiol a gwneud datganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn............................................................................................. 24

Y Pwyllgor Busnes yn cyfeirio’r Bil.................................................................... 24

Ystyriaeth y pwyllgor yng Nghyfnod 1 .............................................................. 24

Adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor a’i argymhellion.............................................. 24

Dadl Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol a phleidlais arnynt............. 24

Sicrhau penderfyniad ariannol ......................................................................... 24

Drafftio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 .......... 24
Trafodion pwyllgor yng Nghyfnod 2 .......... 25
Drafftio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3 .......... 25
Trafodion y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 3 .......... 25
Trafodion y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 4 .......... 25

# Crynodeb o'r broses ar gyfer Biliau Aelod

**Y Llywydd yn cyhoeddi'r amserlen ar gyfer y balot(au)**

Rhaid i'r Llywydd bennu a chyhoeddi amserlen sy'n nodi nifer y balotau sydd i'w cynnal a nifer enwau'r Aelodau sydd i'w dethol ym mhob balot.

**Cyflwyno enwau ar gyfer y balot**

Gall yr Aelodau wneud cais i gael eu cynnwys yn y balot drwy gyflwyno eu henwau i'r Llywydd.

**Balot**

Mae'r Llywydd yn cynnal balot i ddethol enwau'r Aelodau o blith yr enwau a gyflwynwyd. Gellir dethol hyd at dri enw ym mhob balot.

Mae gan enillydd y balot 60 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot (heb gynnwys cyfnodau pan fo'r Senedd ar doriad) i gyflwyno cynnig yn gofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil.

Mae gan Bwyllgor Busnes y Senedd 80 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot (heb gynnwys cyfnodau pan fo'r Senedd ar doriad) i drefnu dadl ar y cynnig hwnnw.

**Dadl Caniatâd i Gyflwyno**

Mae'r Aelodau yn trafod y cynnig sy'n gofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil ac yn pleidleisio arno. Dyma'r ddadl 'Caniatâd i Gyflwyno'.

↓

**Datblygu Bil**

Os yw'r Aelodau yn cefnogi'r cynnig, bydd gan enillydd y balot 13 mis o'r ddadl 'Caniatâd i Gyflwyno' i ddatblygu a chyflwyno'r Bil.[Error! Reference source not found.]

↓

**Cyflwyno Bil**

Ar ôl iddo gael ei gyflwyno, bydd y Senedd yn craffu ar y Bil Aelod ac yn cyflwyno gwelliannau iddo yn yr un modd ag unrhyw Fil cyhoeddus arall.

## Nodiadau

- Os nad yw'r cyfnod o 13 mis yn dod i ben ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd, estynnir y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Bil tan y diwrnod gwaith olaf yn yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl i'r 13 mis ddod i ben.
- Yn ystod y cyfnod o 13 mis, disgwylir fel arfer y bydd yr Aelod yn ymgynghori ar Fil drafft ac y bydd y Llywydd yn gweld y Bil drafft a'r Datganiad Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef o leiaf bedair wythnos cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, er mwyn llunio barn am ei gymhwysedd deddfwriaethol.

# Cyflwyniad

**1.** Gweinidogion Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r rhan fwyaf o'r Biliau Cyhoeddus yn y Senedd. Fodd bynnag, mae modd i Aelodau o’r Senedd, Comisiwn y Senedd neu un o bwyllgorau’r Senedd gyflwyno Biliau Cyhoeddus hefyd.

**2.** Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r prosesau sy'n gysylltiedig â datblygu Bil Aelod, a'i daith drwy'r Senedd.

**3.** Yn **Atodiad 1**, mae canllaw fesul cam i’r broses ar gyfer Bil Aelod.

# Y balot

**4.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod rhaid i'r Llywydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad y Senedd, bennu a chyhoeddi amserlen sy'n nodi:

i. nifer y balotau sydd i'w cynnal i ddethol enwau Aelodau, heblaw aelodau o'r llywodraeth, a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod, a

ii. nifer enwau'r Aelodau sydd i'w dethol ym mhob balot.

**5.** Caiff unrhyw Aelod o'r Senedd nad yw'n aelod o Lywodraeth Cymru gyflwyno ei enw ar gyfer y balot. Fodd bynnag, ni chaiff Aelod sydd wedi ei ddethol mewn balot o'r blaen yn y Senedd honno wneud cais o'r fath. Rhaid i'r balot gynnwys enwau'r holl Aelodau sydd wedi gwneud cais i gael eu cynnwys.

**6.** Cynhelir y balot gan staff yng Ngwasanaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth y Comisiwn, a fydd yn rhoi gwybod i'r Aelod llwyddiannus am y canlyniad. Cyhoeddir canlyniad y balot hefyd ar wefan y Senedd ac fe'i cyhoeddir gan y Llywydd yn y Cyfarfod Llawn.

**7.** Gall deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar fywydau miliynau o bobl ledled Cymru, ac felly mae'r broses o ddatblygu deddf arfaethedig a'i llywio drwy gyfnodau craffu'r Senedd yn un gadarn a thrwyadl. Wrth benderfynu a ydynt am gyflwyno eu henwau ai peidio, efallai y bydd yr Aelodau am gadw mewn cof yr amser sydd ei angen i lunio Bil (hyd at 13 mis), a'i lywio drwy'r cyfnodau deddfwriaethol (sy'n amrywio, ond sy'n gallu cymryd rhwng 6 a 12 mis arall).

## Dadl i geisio caniatâd y Senedd i gyflwyno Bil

**8.** Gall Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig o fewn 60 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd) sy'n gofyn am ganiatâd y Senedd i gyflwyno Bil. I gyd-fynd â'r cynnig, rhaid i'r Aelod gyflwyno Datganiad Esboniadol, sy'n nodi:

- teitl arfaethedig y Bil;
- amcanion polisi arfaethedig y Bil;
- manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac
- asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

**9.** Er eglurder, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod rhaid i'r Aelod fod wedi sicrhau cefnogaeth i'w Fil (na bod wedi cynnal ymgynghoriad) ar yr adeg hon, dim ond bod rhaid iddo nodi yn y Datganiad Esboniadol a yw wedi cael unrhyw gefnogaeth benodol.

**10.** Ni ddisgwylir i'r asesiad cychwynnol o gostau a/neu arbedion yn y Datganiad Esboniadol fod yn fanwl iawn ar y cam cynnar hwn. Yn hytrach, bydd yn rhoi syniad o ystyriaethau cynnar yr Aelod. Yn ymarferol, byddai'n amhosibl i Aelod nodi costau cywir ar gyfer Bil nad yw wedi'i ddatblygu eto. Diben darparu asesiad cychwynnol o gostau a/neu arbedion yw rhoi syniad cyffredinol o effaith ariannol debygol y Bil. Nid oes angen unrhyw amcangyfrif manwl o'r costau nac asesiadau manwl o'r effaith, ac ni ddylai'r Aelodau gael eu rhwymo gan y costau cyffredinol a ddarperir ar yr adeg hon wrth ddatblygu eu cynigion ar gyfer y Bil.

**11.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig o'r fath o fewn 80 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd). Y Pwyllgor Busnes fydd yn trefnu amser ar gyfer y ddadl.

**12.** Mae'r ddadl yn gyfle i'r Aelod gyflwyno achos dros y Bil mewn egwyddor a darbwyllo Aelodau eraill i gefnogi'r cynnig. Nid dadl ar gynnwys manwl unrhyw Fil a gaiff ei gyflwyno maes o law yw hon. Nid oes angen i'r Aelod ddarparu unrhyw ddogfennau ychwanegol cyn y ddadl.

**13.** Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, caniateir i'r Aelod gyflwyno'n ffurfiol Fil sy'n rhoi effaith i'r amcanion polisi a nodir yn y Datganiad Esboniadol. O dan y Rheolau Sefydlog, rhaid i'r Aelod gyflwyno'r Bil o fewn 13 mis[1], neu bydd yn colli'r cyfle i wneud hynny.

**14.** Os nad yw'r cyfnod o 13 mis yn dod i ben ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd, estynnir y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r Bil tan y diwrnod gwaith olaf yn yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl i'r 13 mis ddod i ben.

**15.** Os nad yw'r Senedd yn cytuno i ganiatáu i'r Aelod gyflwyno'r Bil, mae'r Bil yn methu.

[1] Mae'n hynny'n llythrennol yn golygu 13 mis calendr, ni waeth a oes wythnosau pan nad yw'r Senedd yn eistedd neu wyliau banc yn ystod y cyfnod hwnnw.

# Llunio Bil

## Trosolwg

**16.** Er bod y Rheolau Sefydlog yn nodi bod rhaid i'r Aelod gyflwyno Bil cyn pen 13 mis, yn ymarferol, rhaid llunio testun terfynol y Bil, a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, cyn pen 12 mis. Y rheswm am hyn yw bod y Llywydd fel arfer yn gweld y Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef o leiaf bedair wythnos cyn iddynt gael eu cyflwyno, er mwyn rhoi cyfle i'r Llywydd lunio barn am gymhwysedd deddfwriaethol y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno.

**17.** Gall toriadau'r Senedd hefyd effeithio ar yr amser sydd ar gael i Aelod ddatblygu Bil. Hefyd, rhaid i'r amser sydd ar gael i lunio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ganiatáu amser iddynt gael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Ymgynghori

**18.** Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn nodi ei bod yn ofyniad penodol i Aelod ymgynghori ar ei Fil arfaethedig cyn ei gyflwyno'n ffurfiol.

**19.** Fodd bynnag, argymhellir yn gryf y dylid ymgynghori ar egwyddorion cyffredinol y Bil a thestun drafft y Bil.

**20.** Mae gwybodaeth a geir drwy ymgynghori yn galluogi Aelod i:

- benderfynu ar y cynnwys mwyaf priodol ar gyfer ei Fil; a
- nodi materion pwysig neu ddadleuol sy'n debygol o godi pan fydd y Senedd yn trafod y Bil, a pharatoi ar eu cyfer.

## Biliau drafft

**21.** Yn ei adroddiad yn 2015, Deddfu yng Nghymru, argymhellodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y pedwerydd Cynulliad:

> *"y dylid cael rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft. Mae'r argymhelliad hwn yn gymwys i Lywodraeth Cymru ac i Aelodau Cynulliad sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Biliau."*

**22.** Mewn Cynulliadau / Seneddau blaenorol, cynhaliwyd ymgyngoriadau ar nifer o Filiau Aelod drafft. Roedd hyn yn gyfle i'r Aelodau perthnasol a oedd yn

gyfrifol am y Biliau arfaethedig wneud newidiadau iddynt cyn iddynt gael eu cyflwyno (ond gan gyflwyno Biliau, serch hynny, a oedd yn rhoi effaith i'r amcanion polisi arfaethedig a nodwyd yn y Datganiad Esboniadol).

**23.** Pan fydd Bil wedi'i gyflwyno, dim ond drwy gyflwyno gwelliannau y gellir newid ei destun (a rhaid i fwyafrif o blith yr Aelodau dderbyn y gwelliannau hynny). Felly, mae ymgynghori ar Fil drafft yn gyfle i'r Aelodau ymdrin â materion penodol yn haws o lawer. Hefyd, gellir cyhoeddi Bil drafft er mwyn i bwyllgor wneud gwaith craffu cyn deddfu.

## Ymgyngoreion

**24.** Nid oes unrhyw ymgyngoreion y mae 'rhaid' i Aelod ymgynghori â hwy.

**25.** Fel arfer, bydd Aelod yn awyddus i wahodd sefydliadau ac unigolion sydd â buddiant, neu fuddiant a ragwelir, ym mhwnc trafod ei Fil arfaethedig i ymateb i'w ymgynghoriad. Bydd yr Aelod hefyd am lansio ymgynghoriad cyhoeddus llawn ac agored.

**26.** Efallai y bydd Aelod am ymgynghori'n benodol â'r Gweinidog/Gweinidogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Bil, oherwydd:

- efallai y bydd Aelod yn awyddus i weld a oes gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU unrhyw bryderon ynghylch cymhwysedd y Bil;
- efallai y bydd Llywodraeth Cymru am drafod â Llywodraeth y DU effaith bosibl y Bil o ran cyfrifoldebau ar lefel y DU;
- dim ond aelod o Lywodraeth Cymru all wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol;
- efallai y bydd y Bil yn cynnwys adrannau a fydd yn cael eu cychwyn drwy orchymyn.

## Drafftio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol

**27.** Argymhellir bod Aelod a'i staff cymorth yn ystyried yn gynnar yn y broses sut y maent am lunio'u Bil. Gallai'r Aelod ymgynghori ar yr opsiynau gwahanol ar gyfer ffurf y Bil.

**28.** Er mwyn sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu bwriad yr Aelod yn gywir, bydd angen i'r Aelod roi amcanion penodol i bwy bynnag sy'n drafftio'r Bil – dyma'r hyn a elwir yn gyfarwyddiadau drafftio. Er mai cyfrifoldeb y rhai sy'n drafftio'r Bil

fydd dilyn cyfarwyddiadau drafftio'r Aelod, mae'r Aelod yn gyfrifol bob amser am gynnwys y Bil, a dylid gofyn iddo ei gymeradwyo'n ffurfiol pan gyrhaeddir pob un o'r cerrig milltir allweddol yn y broses.

**29.** Wrth ddatblygu a drafftio'r cyfarwyddiadau, efallai y bydd yr Aelod am ystyried y canlynol:

- amcan y ddeddfwriaeth arfaethedig;
- rhesymeg y ddeddfwriaeth arfaethedig;
- amryfal amcanion y ddeddfwriaeth;
- yr ystod o bobl a gweithgareddau y bwriedir eu cynnwys ac y bwriedir i'r Bil effeithio arnynt;
- y cymorth a glustnodwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth;
- y cefndir polisi sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth;
- y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gysylltiedig â'r maes polisi; ac
- ystyriaethau a materion eraill.

**30.** Yn ogystal â chael ei lywio gan y cyfarwyddiadau drafftio y cytunwyd arnynt, rhaid i'r Bil gael ei ysgrifennu i gydymffurfio â **Phenderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol - Biliau Cyhoeddus ar gyfer Deddfau Senedd Cymru**. Bydd swyddogion y Senedd yn gallu rhoi cyngor ar gymhwyso'r Penderfyniad i Filiau.

**31.** Rhaid cyflwyno Memorandwm Esboniadol gyda'r Bil, a rhaid iddo gydymffurfio â darpariaethau Rheolau Sefydlog 26.6, 26.6A, 26.6B a 26.6C.

**32.** Cyfrifoldeb yr Aelod yn y pen draw yw llunio'r Memorandwm Esboniadol. Yn dibynnu ar fanylder y Bil arfaethedig, gall y Memorandwm Esboniadol fod yn ddogfen gymhleth, ac mae'n bosibl y bydd swyddogion y Senedd yn gallu cynnig cyngor ar fanylion gofynion y Rheolau Sefydlog a drafftio'r Memorandwm Esboniadol.

## Gofynion ychwanegol y Rheolau Sefydlog

**33.** Ar ôl drafftio fersiynau terfynol o'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, bydd angen bodloni meini prawf ychwanegol sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog cyn y gellir cyflwyno'r Bil yn ffurfiol. Yn benodol, er mwyn cyflwyno Bil a Memorandwm Esboniadol, rhaid:

- eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- eu cyflwyno gyda datganiad gan y Llywydd i gyd-fynd â hwy, yn datgan a oes gan y Senedd, ym marn y Llywydd, gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y Bil.

**34.** Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol yn y Senedd, bydd fel arfer yn destun cyfnod cyn cyflwyno sy'n para am bedair wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd copi o’r Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef yn cael eu hanfon at y Llywydd er mwyn iddo lunio barn am gymhwysedd deddfwriaethol y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno.

**35.** Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r Bil a'r dogfennau sy’n cyd-fynd ag ef yn y ffurf gywir ac a ydynt yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog yn cael ei wneud gan y Llywydd pan gyflwynir y Bil.

## Cyflwyno'r Bil yn ffurfiol a'r datganiad deddfwriaethol

**36.** Cyflwynir Bil yn ffurfiol yn y Senedd drwy ei osod, ynghyd â'r dogfennau sy’n cyd-fynd ag ef, yn Swyddfa Gyflwyno'r Senedd. Yna, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn trefnu i’r Bil gael ei gyhoeddi erbyn y diwrnod gwaith canlynol ar y dudalen Dogfennau a Osodwyd ar wefan y Senedd. Hefyd, bydd y Bil yn cael ei gyhoeddi ar y dudalen Hynt Biliau'r Senedd ar wefan y Senedd.

**37.** Drwy gonfensiwn, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wneud datganiad deddfwriaethol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar brif nodau ac amcanion y Bil, yn fuan ar ôl ei gyflwyno.

**38.** Ar ôl y datganiad, caiff Aelodau eraill o’r Senedd gyfle i holi'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil neu godi materion sydd o bwys iddynt mewn perthynas â chynnwys a nodau ac amcanion y Bil.

# Proses ddeddfu'r Senedd

**39.** Pan fydd Bil Aelod wedi'i gyflwyno, mae'n ddarostyngedig i'r un broses ddeddfu pedwar cyfnod yn y Senedd â Bil llywodraeth. Mae'r adran a ganlyn yn egluro'r cyfnodau deddfwriaethol gwahanol y mae Bil yn ddarostyngedig iddynt yn ystod ei daith drwy'r Senedd.

## Cyfnod 1

**40.** Mae Cyfnod 1 o broses ddeddfu'r Senedd yn caniatáu i bwyllgor (neu bwyllgorau) ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, ac yna i'r Senedd gytuno arnynt yn ystod y Cyfarfod Llawn.

### Pwyllgor(au) yn ystyried y Bil

**41.** Ar ôl i Fil gael ei gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a ddylid cyfeirio'r Bil at bwyllgor er mwyn iddo ystyried ei egwyddorion cyffredinol.

**42.** Os bydd yn penderfynu cyfeirio Bil at bwyllgor, rhaid i'r Pwyllgor Busnes hefyd bennu a chyhoeddi amserlen y mae rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad yn unol â hi. Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol awgrymu amserlen a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Busnes i helpu i ei ystyriaethau.

**43.** O dan amgylchiadau penodol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu peidio â chyfeirio Bil at bwyllgor yng Nghyfnod 1. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wneud cynnig bod y Senedd yn cytuno'n syth ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn, a hynny heb ofyn i bwyllgor eu hystyried ymlaen llaw.

**44.** Yn ystod Cyfnod 1, bydd y pwyllgor fel rheol yn canolbwyntio ar drafod prif ddiben neu ddibenion y Bil. Yn gyffredinol, bydd y pwyllgor yn ystyried:

a. nodau / amcanion polisi'r Bil;

b. ai proses ddeddfwriaethol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r nodau / amcanion hynny; ac

c. a yw'r Bil, ar ei ffurf ddrafft, yn gallu cyflawni'r nodau / amcanion datganedig.

**45.** Wrth wneud ei waith, disgwylir i'r pwyllgor wahodd unigolion a sefydliadau sydd â buddiant i gyflwyno sylwadau a allai lywio'r gwaith hwnnw, fel arfer drwy

eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar. Gallai'r gwahoddiad hwn fod ar ffurf galwad am dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar gan amryw randdeiliaid perthnasol. Byddai'r dystiolaeth lafar yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfod pwyllgor cyhoeddus. Mae'r broses hon fel arfer yn cynnwys clywed tystiolaeth gan y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

**46.** Mae'n bosibl y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil hefyd yn aelod o'r pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil. Os felly, mae'n arferol i'r Aelod sy'n gyfrifol beidio â gwasanaethu fel aelod o'r pwyllgor lle trafodir eitemau sy'n ymwneud â'i Fil. Fel arfer, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn gofyn i Aelod arall ddirprwyo ar ei ran yn rheolaidd, ar gyfer eitemau lle mae'r pwyllgor yn trafod y Bil.

**47.** Bydd y pwyllgor hefyd yn disgwyl clywed tystiolaeth lafar ynghylch y Bil gan yr Aelod sy'n gyfrifol, a hynny mewn cyfres o gyfarfodydd. Daeth yn arfer i'r Aelod sy'n gyfrifol fynd i'r cyfarfod pwyllgor cyntaf a'r cyfarfod olaf lle ceir tystiolaeth ynghylch y Bil. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, mae'n bosibl y caiff yr Aelod sy'n gyfrifol ei holi am nodau ac amcanion y Bil ac am y rhesymau dros ei gyflwyno. Yn ystod y cyfarfod olaf, mae'n bosibl y gofynnir i'r Aelod sy'n gyfrifol ymdrin â'r materion a'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid yn ystod sesiynau tystiolaeth y pwyllgor. Yn y ddau gyfarfod, caiff yr Aelodau ofyn cwestiynau ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Bil.

**48.** Mae'n bosibl hefyd y caiff y Bil ei ystyried mewn pwyllgorau sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan Reolau Sefydlog 19 ac 21. Caiff y pwyllgorau hyn drafod goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth ac ansawdd a phriodoldeb y darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru.

## Cymorth mewn cyfarfodydd pwyllgor

**49.** Bydd pwyllgor yn caniatáu i'r Aelod sy'n gyfrifol ddod â nifer o gynghorwyr gydag ef i'r cyfarfod i'w helpu i ateb cwestiynau. Caiff Aelod sy'n gyfrifol wahodd unrhyw un sydd wedi rhoi cymorth iddo i ddod i'r cyfarfod at y diben hwn.

**50.** Efallai y bydd rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd roi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor ar unrhyw adeg wrth iddo gasglu tystiolaeth.

## Adroddiad y pwyllgor

**51.** Ar ddiwedd ystyriaethau Cyfnod 1, bydd y pwyllgor/pwyllgorau yn cyhoeddi adroddiad. Gall y pwyllgor sy'n gyfrifol am ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil gynnwys argymhelliad yn ei adroddiad naill ai y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil neu na ddylai gytuno arnynt.

**52.** Caiff yr adroddiad hefyd gynnwys argymhellion ynghylch gwelliannau i'r Bil, ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan y pwyllgor.

## Dadl Cyfnod 1

**53.** O leiaf bum niwrnod ar ôl cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor cyfrifol (neu'r dyddiad a bennir gan y Pwyllgor Busnes), caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig yn ffurfiol bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Bydd dadl ar y Bil fel arfer wedi'i chynnwys yn amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer ystyried y Bil. Rhaid i'r Aelod sicrhau bod cynnig y dylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn cael ei gyflwyno yn y Swyddfa Gyflwyno heb fod yn hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn y ddadl Cyfnod 1. Ar ôl y ddadl honno, bydd y Senedd yn penderfynu a ddylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

**54.** Os yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn dewis peidio â chyflwyno cynnig y dylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ni fydd y ddadl Cyfnod 1 yn cael ei chynnal ar y dyddiad a drefnwyd. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai'r Aelod sy'n gyfrifol fel arfer yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes, i ofyn am ragor o amser neu fel arall bod y ddadl yn cael ei gohirio.

**55.** Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil fydd yn agor a chau'r ddadl Cyfnod 1. Caiff aelodau o'r pwyllgorau a fu'n craffu ar y Bil siarad hefyd, ynghyd ag Aelodau eraill sydd â diddordeb. Yn ogystal, bydd y Gweinidog/Gweinidogion sydd â chyfrifoldeb am y meysydd y mae’r Bil yn ymdrin â hwy yn cyfrannu ar ran Llywodraeth Cymru.

**56.** Daw Cyfnod 1 i ben pan fydd y Senedd yn pleidleisio ynghylch a yw’n cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol dynnu'r cynnig sy'n gofyn i'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn ôl ar unrhyw adeg cyn y bleidlais ei hun (gan gynnwys yn ystod y ddadl a gynhelir cyn y bleidlais).

**57.** Os bydd y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2.

**58.** Os bydd mwyafrif o blith yr Aelodau yn pleidleisio yn erbyn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd y Bil yn methu ac ni ellir cymryd camau pellach mewn perthynas ag ef.

**59.** Yn achos pleidlais gyfartal, bydd y Llywydd yn defnyddio ei bleidlais fwrw i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Ceir rhagor o wybodaeth am drafodion Cyfnod 1 yn y Canllaw i'r Broses Ddeddfu.

## Penderfyniad Ariannol

**60.** Bydd Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod ar ôl cwblhau Cyfnod 1. Pan fydd Cyfnod 2 wedi dechrau, caiff yr Aelodau ddechrau cyflwyno gwelliannau.

**61.** Fodd bynnag, rhaid i bob Bil sydd â goblygiadau ariannol gael cydsyniad y Senedd, drwy gyfrwng penderfyniad ariannol, cyn y gall trafodion Cyfnod 2 (cyfarfodydd i ystyried a gwaredu gwelliannau a gyflwynwyd) ddechrau.

**62.** O dan y Rheolau Sefydlog, mae angen penderfyniad ariannol os bydd Bil:

a. yn codi tâl newydd ar Gronfa Gyfunol Cymru neu'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn y gwariant a godir ar y Gronfa honno;

b. yn arwain at wariant arwyddocaol sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben newydd neu'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben presennol; neu

c. yn gosod neu’n cynyddu tâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i daliad gael ei wneud, (gan gynnwys drwy ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy is-ddeddfwriaeth), a fyddai'n mynd i Gronfa Gyfunol Cymru.

**63.** Mae penderfyniad ariannol y cytunir arno yn cydnabod mai Cronfa Gyfunol Cymru fydd yn ateb y galw am arian o ganlyniad i’r Bil.

**64.** Dim ond aelod o Lywodraeth Cymru gaiff gyflwyno cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Mae hyn oherwydd:

- bod rhaid i'r Senedd gyfan, drwy bleidlais, roi caniatâd i godi refeniw neu i ddefnyddio adnoddau; a
- bod rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn goblygiadau ariannol y Bil, am mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli arian cyhoeddus ac felly rhaid iddi fod â rheolaeth dros godi refeniw a defnyddio adnoddau (yn y meysydd datganoledig).

**65.** Felly, mae'r penderfyniad ariannol yn gam hollbwysig ar gyfer Bil Aelod. Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi y bydd Bil yn methu os na chytunir ar y Penderfyniad Ariannol cyn pen chwe mis ar ôl cwblhau Cyfnod 1.

**66.** Felly, argymhellir yn gryf fod unrhyw Aelod sy'n gyfrifol am Fil yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ymhell cyn y ddadl Cyfnod 1 er mwyn gofyn iddi gyflwyno cynnig ar gyfer y penderfyniad ariannol o fewn amserlen resymol.

## Cyfnod 2

**67.** Wrth gyfeirio Bil at bwyllgor ar gyfer trafodion Cyfnod 1, bydd y Pwyllgor Busnes fel arfer yn pennu ac yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 ar yr un pryd.

**68.** Mae canllawiau manwl ar drafodion Cyfnod 2, gan gynnwys gwybodaeth am yr amserlen, ac am gyflwyno, grwpio a chynnig gwelliannau, ar gael yn y **Canllaw i'r Broses Ddeddfu**.

### Llunio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2

**69.** Nid oes rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno unrhyw welliannau i'w hystyried yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr Aelod yn awyddus i gyflwyno gwelliannau er mwyn rhoi sylw i:

- ymrwymiadau a wnaed gan yr Aelod yn ystod trafodion Cyfnod 1;
- sylwadau a wnaed gan randdeiliaid yn ystod trafodion Cyfnod 1; neu
- argymhellion a wnaed gan bwyllgorau yn eu hadroddiadau Cyfnod 1.

**70.** Gellir cyflwyno gwelliannau ar gyfer trafodion Cyfnod 2 i'r tîm clercio perthnasol (gellir cysylltu â hwy yn **deddfwriaeth@senedd.cymru** ) o ddiwrnod cyntaf Cyfnod 2 ymlaen. Caiff unrhyw Aelod (gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol ac aelodau o Lywodraeth Cymru) gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, ac nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno. Mae gwybodaeth am sut i gyflwyno gwelliannau yn y dogfennau canlynol:

- **Canllaw i welliannau i Filiau Cyhoeddus (PDF, 176KB)**
- **Cyflwyno gwelliannau i Filiau (PDF, 310KB)**

**71.** Er mwyn i welliant gael ei dderbyn gan y Swyddfa Gyflwyno, rhaid iddo gydymffurfio â **Phenderfyniad y Llywydd o ran Ffurf Briodol Gwelliannau**, yn ogystal â'r rheolau ar dderbyniadwyedd a nodir yn y **Rheolau Sefydlog**.

**72.** O dan y Rheolau Sefydlog, rhaid i welliannau (heblaw gwelliannau hwyr) gael eu cyflwyno o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y cyfarfod y maent i gael eu trafod ynddo. Fodd bynnag, mae'n arferol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil (ac i Lywodraeth Cymru) gyflwyno eu holl welliannau o leiaf saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod y byddant yn cael eu trafod ynddo.

**73.** Rhaid i fwyafrif o blith yr Aelodau bleidleisio o blaid gwelliant er mwyn iddo gael ei basio. Os bydd pleidlais gyfartal, bydd y Cadeirydd yn defnyddio ei bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

## Pwyllgor yn ystyried y gwelliannau yng Nghyfnod 2

**74.** Fel y nodir uchod, y drefn arferol yw nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn gwasanaethu fel aelod o'r pwyllgor sy'n ystyried ei Fil. Felly, ni fydd yn pleidleisio ar y gwelliannau yng Nghyfnod 2.

**75.** Drwy gonfensiwn, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cael cyfle i siarad am:

- ei welliannau ei hun; a
- phob grŵp o welliannau (y confensiwn yw mai'r Aelod sy'n gyfrifol yw'r siaradwr olaf ond un ym mhob grŵp o'r ddadl, gan siarad ar ôl y Gweinidog).

**76.** Cyn trafodion Cyfnod 2, efallai y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol a'i staff cymorth am baratoi:

- atebion posibl ar gyfer y gwelliannau sydd wedi'u grwpio; a
- dogfennau sy'n crynhoi pob gwelliant; a'r bleidlais y dymuna'r Aelod ei gwneud mewn perthynas â hwy.

**77.** Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol ddod â phobl gydag ef i drafodion Cyfnod 2. Caiff y rheini roi nodiadau i'r Aelod sy'n gyfrifol, ond ni chânt siarad yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Diwygio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2

**78.** Os derbyniwyd unrhyw welliannau yn ystod trafodion Cyfnod 2, bydd fersiwn o'r Bil "fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2" yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Senedd ar ôl i drafodion Cyfnod 2 ddod i ben. Tîm clercio'r pwyllgor fydd yn gwneud hyn.

**79.** Os caiff Bil ei ddiwygio yn ystod trafodion Cyfnod 2, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol lunio Memorandwm Esboniadol diwygiedig (oni bai bod y pwyllgor a gynhaliodd drafodion Cyfnod 2 yn penderfynu nad yw hyn yn angenrheidiol).

**80.** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, rhaid gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig a luniwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol o leiaf bum niwrnod gwaith cyn i’r Senedd gyfarfod ar gyfer trafodion Cyfnod 3 am y tro cyntaf.

## Cyfnod 3

**81.** Mae Cyfnod 3 yn gyfnod diwygio ychwanegol sy'n galluogi pob Aelod o’r Senedd i graffu ar Fil fesul llinell yn ystod y Cyfarfod Llawn.

**82.** Fel yn achos Cyfnod 2, nid oes rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno unrhyw welliannau yn ystod Cyfnod 3. Fodd bynnag, efallai y bydd am gyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil yng ngoleuni gwelliannau a dderbyniwyd neu a waredwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2.

**83.** Mae canllawiau manwl ar drafodion Cyfnod 3, gan gynnwys gwybodaeth am yr amserlen, ac am gyflwyno, grwpio a chynnig gwelliannau, ar gael yn y **Canllaw i’r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus**.

**84.** Yn ystod dadl Cyfnod 3, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cael cyfle i siarad am:

- ei welliannau ei hun; a
- phob grŵp o welliannau (y confensiwn yw mai'r Aelod sy'n gyfrifol yw'r siaradwr olaf ond un ym mhob grŵp o'r ddadl, gan siarad ar ôl y Gweinidog).

**85.** Cyn trafodion Cyfnod 3, efallai y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol a'i staff cymorth am baratoi:

- atebion posibl ar gyfer y gwelliannau sydd wedi'u grwpio; a
- dogfennau sy'n crynhoi pob gwelliant a'r bleidlais y dymuna'r Aelod ei gwneud mewn perthynas â hwy.

**86.** Ni chaiff yr Aelod sy’n gyfrifol gael neb gydag ef yn ystod y ddadl Cyfnod 3. Fodd bynnag, gellir darparu cymorth drwy e-bost drwy gydol y ddadl.

**87.** Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yng Nghyfnod 3 wedi’u gwaredu, caiff yr Aelod sy’n gyfrifol, neu unrhyw aelod o’r Llywodraeth, heb hysbysiad, gynnig bod y Senedd yn ystyried rhagor o welliannau mewn trafodion Cyfnod 3 pellach. Mae gwybodaeth am drafodion Cyfnod 3 Pellach yn **y Canllaw i’r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus.**

**88.** Unwaith y bydd Cyfnod 3 ar ben, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gynnig, heb hysbysiad, bod y Senedd yn ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd. Mae gwybodaeth am drafodion y Cyfnod Adrodd yn y Canllawiau i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus.

**89.** Os caiff Bil ei ddiwygio yn ystod trafodion Cyfnod 3, ac os bydd y Senedd yn cytuno i ystyried y Bil yn y Cyfnod Adrodd, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol lunio Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y Senedd yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig. Rhaid gosod y Memorandwm Esboniadol diwygiedig a luniwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol o leiaf bum niwrnod gwaith cyn i'r Senedd gyfarfod ar gyfer trafodion y Cyfnod Adrodd am y tro cyntaf.

## Cyfnod 4

**90.** Cyfnod 4 yw'r cyfnod olaf ym mhroses ddeddfu'r Senedd. Ar ôl cynnal dadl, caiff pleidlais ei chynnal ynghylch a ddylai testun terfynol y Bil gael ei basio ai peidio. Bydd y Bil yn cael ei basio os bydd mwyafrif o blith yr Aelodau yn pleidleisio o blaid y cynnig. Bydd y Bil yn methu os na fydd mwyafrif o blith yr Aelodau yn pleidleisio o blaid y cynnig.

**91.** Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal yng Nghyfnod 4, bydd y Llywydd yn defnyddio'i bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn pasio'r Bil.

**92.** Mae rhagor o wybodaeth am drafodion Cyfnod 4 yn y **Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus.**

**93.** Pan fydd y Senedd wedi pasio Bil, dechreuir ar gyfnod o bedair wythnos a elwir yn gyfnod 'hysbysu'. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff y Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol, o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gyfeirio'r cwestiwn ynghylch a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r Goruchaf Lys am benderfyniad. Yn yr un modd, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd Clerc y Senedd rhag cyflwyno'r Bil i gael y Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau penodol yn gymwys (adran 114 o Ddeddf 2006). Nid oes gan yr Aelod sy'n gyfrifol unrhyw rôl o ran cysylltu â'r Cwnsler Cyffredinol, y Twrnai Cyffredinol na'r Ysgrifennydd Gwladol.

**94.** Yn ystod y cyfnod hysbysu, bydd Llywodraeth Cymru, drwy ymgynghori â'r Aelod sy'n gyfrifol, yn llunio Nodiadau Esboniadol i gyd-fynd â'r Ddeddf.

**95.** Ar ôl y cyfnod hysbysu, rhaid i'r Llywydd gyflwyno'r Bil i gael y Cydsyniad Brenhinol. Pan fydd Bil wedi cael y Cydsyniad Brenhinol, daw'n Ddeddf gan

Senedd Cymru. Mae'n arferol i'r Aelod sy'n gyfrifol gael gwahoddiad i’r seremoni swyddogol ar gyfer rhoi Sêl ar y Ddeddf.

# Atodiad 1: Canllawiau fesul cam i'r broses ar gyfer Bil Aelod

## Amserlen ar gyfer y balot(au)

Bydd y Llywydd yn pennu a chyhoeddi amserlen sy'n nodi nifer y balotau sydd i'w cynnal yn ystod tymor y Senedd, a nifer enwau'r Aelodau sydd i'w dethol ym mhob balot.

## Cyflwyno enwau ar gyfer y balot

Bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno'i enw ar gyfer y balot drwy wasanaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth y Senedd.

## Y balot

Bydd y Llywydd yn cynnal balot, y mae rhaid iddo gynnwys enwau'r holl Aelodau  sydd wedi gwneud cais i gael eu cynnwys. Bydd enillydd y balot yn cael cyfle i gyflwyno cynnig sy'n gofyn am ganiatâd y Senedd i gyflwyno Bil. I gyd-fynd â'r cynnig hwn, rhaid i enillydd y balot gyflwyno Datganiad Esboniadol, sy'n nodi:

- teitl arfaethedig y Bil;
- amcanion polisi arfaethedig y Bil;
- manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac
- asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

## Dadl i geisio caniatâd y Senedd i gyflwyno Bil

Bydd yr Aelod yn agor a chau dadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch a yw'r Senedd am ganiatáu i'r Bil Aelod gael ei gyflwyno. Bydd Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio ar y cynnig, sy'n gynnig y gellir ei basio drwy fwyafrif syml.

## Drafftio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol

Os bydd y Senedd yn caniatáu i'r Bil gael ei gyflwyno, rhoddir 13 mis i'r Aelod ddrafftio Bil a Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef (bydd yr Aelod fel rheol yn ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses hon).

## Cyflwyno'r Bil yn ffurfiol a gwneud datganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn

Bydd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol yn Swyddfa Gyflwyno'r Senedd. Caiff yr Aelod gyfle i wneud datganiad rhagarweiniol ar y Bil i'r holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn.

## Y Pwyllgor Busnes yn cyfeirio'r Bil

Bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu a oes angen i bwyllgor ystyried y Bil yn ystod Cyfnod 1 ac, os felly, bydd yn penderfynu at ba bwyllgor y dylid cyfeirio'r Bil ar gyfer y broses graffu.

## Ystyriaeth y pwyllgor yng Nghyfnod 1

Bydd y pwyllgor sy'n gyfrifol yn casglu tystiolaeth gan randdeiliaid sydd â buddiant, gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Gall pwyllgorau eraill hefyd gasglu tystiolaeth.

## Adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor a'i argymhellion

Bydd y pwyllgor cyfrifol yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Caiff pwyllgorau eraill hefyd gyhoeddi adroddiadau.

## Dadl Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol a phleidlais arnynt

Bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn agor a chau dadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn, ac wedi hynny cynhelir pleidlais ynghylch a ddylid cymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil ai peidio.

## Sicrhau penderfyniad ariannol

Bydd y Senedd, drwy bleidleisio ar gynnig a fydd yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru, yn cytuno – neu beidio – mai Cronfa Gyfunol Cymru fydd yn ateb y galw am arian o ganlyniad i'r Bil.

## Drafftio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2

Os cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd Cyfnod 2 yn dechrau a gall yr holl Aelodau gyflwyno gwelliannau i'r Bil (gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol ac aelodau o Lywodraeth Cymru).

## Trafodion pwyllgor yng Nghyfnod 2

Bydd y pwyllgor yn ystyried ac yn gwaredu'r holl welliannau a gyflwynwyd. Yn unol â chonfensiwn, bydd cyfle i’r Aelod sy'n gyfrifol siarad am bob grŵp o welliannau. Dim ond os cytunir ar y Penderfyniad Ariannol y ceir cynnal trafodion Cyfnod 2.

## Drafftio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3

Gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau i'r Bil (gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol ac aelodau o Lywodraeth Cymru).

## Trafodion y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 3

Bydd yr Aelodau’n ystyried ac yn gwaredu'r gwelliannau hynny i'r Bil a gaiff eu dethol gan y Llywydd.

## Trafodion y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 4

Pleidlais ynghylch a ddylid pasio neu wrthod y Bil.